



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG53912

Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl 2026 - Drafft

Dyddiad cyhoeddi: 02/02/2026

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 13 Ebrill 2026

Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl

Cyflwyniad

Mae'r Strategaeth Genedlaethol ddrafft hon yn amlinellu wyth blaenoriaeth allweddol ynghyd â chymau gweithredu i gefnogi gofalwyr di-dâl yng Nghymru:

1. **Cydnabyddiaeth ac ymwybyddiaeth:** Gwella cydnabyddiaeth gyhoeddus a phroffesiynol o ofalwyr di-dâl drwy wybodaeth hygyrch, allgymorth wedi'i dargedu at bobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a grwpiau eraill sydd wedi'u hymyleiddio, ac e-ddysgu i bobl mewn amrywiaeth o rolau proffesiynol.
2. **Mynediad at wasanaethau:** Sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn deall eu hawliau a, lle y bo'n briodol, yn cael asesiadau amserol o safon o'u hanghenion a chynlluniau cymorth.
3. **Gofalwyr ifanc:** Hyrwyddo cydnabyddiaeth a chymorth i ofalwyr ifanc mewn addysg a lleoliadau cymunedol, gan gynnwys mynediad at gardiau adnabod. Asesiadau rheolaidd i sicrhau nad ydynt yn ysgwyddo gormod o faich. Hyrwyddo gwell iechyd meddwl a phrofiad a deilliannau addysgol.
4. **Caledi ariannol:** Rhoi gwybodaeth i ofalwyr di-dâl er mwyn iddynt gael cymaint o incwm â phosibl a'u hannog i hawlio budd-daliadau.
5. **Cyflogaeth am dâl:** Cymorth i ofalwyr di-dâl aros mewn cyflogaeth am dâl, neu ddychwelyd iddi, drwy hyrwyddo hawliau cyflogaeth, gweithleoedd sy'n ystyriol o ofalwyr a llwybrau cyflogaeth cynhwysol i ofalwyr.
6. **Gofal amgen (seibiant) a seibiannau oddi wrth gyfrifoldebau gofalu:** Gwella mynediad at opsiynau seibiant addas, gan gynnwys seibiannau byr, gweithio gydag awdurdodau lleol i nodi bylchau a chydgyhyrchu gwelliannau â gofalwyr di-dâl.
7. **Iechyd a llesiant meddyliol:** Gwella cymorth iechyd meddwl gofalwyr drwy adolygiad lleol o grwpiau cymorth, gwasanaethau generig sy'n ystyriol o ofalwyr, a gwell ymwybyddiaeth broffesiynol.
8. **Gofalwyr a chynllunio gofal:** Cydnabod gofalwyr di-dâl fel partneriaid ag awdurdodau lleol a byrddau iechyd wrth asesu'r rhai y maent yn gofalu amdanynt, cynllunio eu gofal, a'u rhyddhau o'r ysbyty.

Mae'r blaenoriaethau hyn yn deillio o ymgysylltu cynhwysfawr â gofalwyr di-dâl a sefydliadau cynrychioliadol ledled Cymru. Gwnaethom siarad ag amrywiaeth eang o ofalwyr di-dâl a sefydliadau rhanddeiliaid dros haf 2025. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1. Rydym yn hynod ddiolchgar am eu cyfraniadau.

Er bod gofalwyr ifanc yn flaenoriaeth benodol, mae pob un o flaenoriaethau'r strategaeth hon yn gymwys i ofalwyr ifanc.

Terminoleg

Defnyddir y term 'gofalwr di-dâl' drwy'r ddogfen gyfan hon a hwn yw'r term a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru ac mae'n gyffredin yn y sector. Mae'r term yn ceisio gwahaniaethu rhwng gofalwyr di-dâl a gweithwyr gofal cymdeithasol am dâl. Sylweddolwn nad yw rhai pobl sy'n ymgymryd â rôl gofalwr yn cydnabod y term hwn ac mae hyn yn ymwneud â'n blaenoriaeth allweddol gyntaf. Diffinnir gofalwr yn

Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 'fel person sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl', a lle nad yw'r person wedi'i gontractio i ddarparu gofal neu lle mae'n gwneud hynny fel gwaith gwirfoddol. Rydym hefyd yn defnyddio'r term 'gofalwr' i olygu "gofalwr di-dâl" yn y ddogfen hon, lle rydym yn hyderus bod yr ystyr yn eglur.

Rydym yn defnyddio'r term 'gofal amgen (seibiant)' drwy'r ddogfen gyfan hon i gyfeirio at drefniadau sy'n caniatáu i'r gofalwr di-dâl ymgymryd â thasgau eraill a/neu gael seibiant o'i rôl fel gofalwr. Rydym wedi cynnwys 'seibiant' am ei fod yn derm a ddefnyddir yn gyffredin, ond credwn fod iddo ystyr negyddol a hoffem hyrwyddo'r defnydd o 'gofal amgen'.

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r termau 'pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol' a 'lleiafrifoedd ethnig' ar hyn o bryd. Sylweddolwn fod termau eraill yn cael eu defnyddio.

Themâu sy'n codi

Mae'r adran hon yn amlinellu'r themâu allweddol sy'n codi o siarad â grwpiau o ofalwyr di-dâl a chyfweliadau a chyflwyniadau ysgrifenedig gan sefydliadau cynrychioliadol. Gwnaethom hefyd gyfarfod ag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes iechyd, gofal cymdeithasol, ymchwil a pholisi. Mae'r cyfraniadau yn adlewyrchu profiadau amrywiol ac maent wedi arwain yn uniongyrchol at nodi'r wyth blaenoriaeth allweddol hyn.

Adnabod a chydabod

Dyweddodd gofalwyr di-dâl eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi pan oedd gweithwyr proffesiynol yn cydnabod eu harbenigedd yn eu rolau fel gofalwyr. Roedd rhai pobl o'r farn bod mwy o ymwybyddiaeth o ofalwyr di-dâl ymhlith y cyhoedd, ond nododd llawer fod gofalwyr yn dal heb eu hadnabod yn aml, ac nad oeddent yn cael digon o gydnabyddiaeth. Nid yw nifer sylweddol yn diffinio eu hunain fel gofalwyr di-dâl, yn enwedig mewn cymunedau lle y credir mai cyfrifoldeb y teulu yw gofalu. Dywedwyd bod hyn yn arbennig o gyffredin ymhlith unigolion hyn, pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, a'r rhai sy'n gofalu am bartneriaid neu blant.

Ceir cyfleoedd coll yn aml mewn lleoliadau iechyd, addysg, a gofal cymdeithasol, lle roedd gofalwyr yn bresennol yn ystod apwyntiadau neu lle roeddent wedi chwarae rhan i gynllunio gofal ond nad oedd ymgais ragweithiol i'w hadnabod na chynnig cymorth iddynt. Nid oes unrhyw system gofnodi gyson i adnabod gofalwyr mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae gofalwyr yn aml yn cael eu cydnabod adeg argyfwng yn hytrach na thrwy ymgysylltu rheolaidd neu ataliol. Dywedodd gofalwyr di-dâl wrthym fod diffyg cydnabyddiaeth gan weithwyr proffesiynol a systemau wedi cyfrannu at deimladau o fod yn anweladwy ac at straen emosiynol, sy'n atgyfnerthu ymdeimlad o ynysigrwydd.

Awgrymodd llawer o bobl ymgyrchoedd cenedlaethol a lleol i godi ymwybyddiaeth er mwyn gwella dealltwriaeth o'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn ofalwr a hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael. Roedd rhai yn amau a oedd hyfforddiant perthnasol ar gael i weithwyr proffesiynol ac eraill yn y gymuned y maent yn dod ar eu traws.

Mynediad at wasanaethau

Soniodd rhai pobl y gwnaethom siarad â nhw am gymorth amserol, hyblyg, a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn gan eu hawdurdod lleol a sefydliadau yn y trydydd sector. Canfu eraill fod mynediad at wasanaethau cymorth yn ddarniog ac yn anghyson ledled Cymru. Ymhlith y pryderon cyffredin roedd amseroedd aros hir i asesu anghenion gofalwyr a diffyg adolygiadau.

Cododd gofalwyr di-dâl y risg o allgáu digidol lle mae gwybodaeth ond ar gael ar-lein, sy'n rhwystr i fynediad. Clywsom fod y newid i wasanaethau ar-lein wedi cyfrannu at ymdeimlad o allgáu ac ynysigrwydd i'r rhai a oedd heb fynediad digidol na llythrennedd digidol, a'i fod wedi gwneud iddynt betruso cyn ceisio cymorth.

Mae gofalwyr di-dâl o gymunedau ethnig lleiafrifol, gan gynnwys y rhai o gymunedau Sipsiwn, Teithwyr, a mudwyr yn aml yn wynebu heriau dwysach oherwydd rhwystrau diwylliannol ac ieithyddol. Clywsom am anawsterau i gael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau, yn enwedig lle nad oedd deunyddiau ar gael mewn iaith wahanol neu nad oeddent wedi'u cyflwyno mewn fformat lle y gellid defnyddio adnoddau cyfieithu digidol.

Nodwyd bod gofalwyr sy'n defnyddio iaith Arwyddion Prydain (BSL) neu ofalwyr ag anableddau dysgu o dan anfantais benodol oherwydd y prinder gwybodaeth mewn BSL a fformatau hawdd eu deall. Nodwyd hefyd fod diffyg cymorth i gwblhau ffurflenni a diffyg cyfathrebu rhagweithiol gan wasanaethau statudol yn creu rhwystrau.

Nododd cyfranwyr pa mor bwysig oedd strategaethau cyfathrebu diwylliannol ac ieithyddol gynhwysol, gan alw am i wybodaeth gyson gael ei datblygu, a fyddai ar gael yn genedlaethol er mwyn sicrhau bod pob gofalwr di-dâl yn cael digon o wybodaeth a chymorth. Disgrifiodd rhai pobl ddiffyg dealltwriaeth ddiwylliannol mewn gwasanaethau, a arweiniodd weithiau at asesiadau neu gynlluniau cymorth amhriodol. Dywedwyd wrthym fod rhai gofalwyr yn osgoi gwasanaethau oherwydd ofn neu stigma neu farn anffafriol.

Dywedodd llawer o ofalwyr di-dâl wrthym pa mor bwysig yw grwpiau cymorth gan gymheiriaid iddynt. Ystyrir bod y rhain yn fannau diogel i rannu profiadau a chael cymorth emosiynol. Codwyd pryder nad oedd digon o grwpiau cymorth gan gymheiriaid ar gael yn lleol ledled Cymru.

Gofalwyr Ifanc

Mae llawer o ofalwyr ifanc yn teimlo nad yw gweithwyr proffesiynol yn eu cydnabod. Maent yn disgrifio heriau o ran cydbwyso addysg â chyfrifoldebau gofalu, sy'n golygu eu bod yn colli sesiynau adolygu, gweithgareddau allgyrsiol, a chyfleoedd cymdeithasol. Un pryder a godwyd dro ar ôl tro oedd llesiant meddyliol, a dywedodd llawer o ofalwyr ifanc wrthym eu bod yn teimlo straen a gorbryder a bod eu mynediad at gymorth iechyd meddwl sydd wedi'i deilwra at eu hanghenion yn gyfyngedig. Dywedodd gofalwyr ifanc wrthym eu bod yn wynebu rhwystrau o ran trafniadaeth, hamdden, ac eitemau hanfodol oherwydd caledi ariannol.

Dywedodd gofalwyr ifanc wrthym eu bod yn credu y bydd eu rolau fel gofalwyr yn cyfyngu ar gyfleoedd addysg a chyflogaeth yn y dyfodol. Cyfeiriodd rhai at eu hawliau o dan [Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn](#) ac

ymrwymiaidau [Cyfamod Gofalwyr Ifanc - Ymddiriedolaeth Gofalwyr](#) y mae Llywodraeth Cymru wedi'i lofnodi.

Mae gofalwyr ifanc yn teimlo y dylent chwarae mwy o ran yn y gwaith o lunio'r polisïau a'r gwasanaethau sy'n effeithio arnynt, gan gynnwys mwy o gydnabyddiaeth mewn polisïau ysgol.

Caledi ariannol

Nododd gofalwyr di-dâl a'u cynrychiolwyr bwysau a chaledi ariannol yn gyson, yn aml am eu bod wedi gorfod rhoi'r gorau i'w gwaith neu leihau eu horiau. Mae hyn yn effeithio ar eu hincwm fel aelwyd ac mae iddo oblygiadau hirdymor o ran camu ymlaen mewn gyrfa a'u pensiwn.

Nododd gofalwyr fod eu haelwydydd yn aml yn wynebu treuliau ychwanegol megis biliau gwresogi uwch, costau trafndiaeth a gofal seibiant y maent yn talu amdano eu hunain. Nododd rhai gofalwyr di-dâl nad oeddent yn ymwybodol o'r budd-daliadau na'r cymorth ariannol a oedd ar gael iddynt. Disgrifiodd rhai gofalwyr hŷn neu ofalwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol anawsterau i wneud cais am fudd-daliadau a chymorth ariannol arall, neu ddryswch ynglŷn â chymhwysra. Mae straen ariannol yn cael effaith emosiynol a disgrifiodd pobl straen, gorbryder, ac ymdeimlad o ddiymadferthwch a oedd yn codi wrth geisio cael dau ben llinyn ynghyd a rhoi gofal hanfodol ar yr un pryd.

Cyflogaeth

Dywedodd gofalwyr di-dâl wrthym dro ar ôl tro fod cydbwyso cyflogaeth am dâl â chyfrifoldebau gofalwr di-dâl yn her sylweddol. Soniodd llawer am orfod lleihau eu horiau gwaith, newid rolau, neu adael eu cyflogaeth yn gyfan gwbl.

Rhannodd rhai gofalwyr enghreifftiau o gyflogwyr a oedd yn cynnig trefniadau gweithio hyblyg, absenoldeb i ofalwyr, a threfniadau rheoli cefnogol. Roedd y profiadau cadarnhaol hyn yn gysylltiedig â gwell llesiant a'r gallu i aros mewn gwaith. Nododd gofalwyr eraill ddiffyg dealltwriaeth a chymorth gan gyflogwyr, diffyg hyblygrwydd neu addasiadau i ddarparu ar gyfer cyfrifoldebau gofalu. Arweiniodd hyn at lefelau uchel o straen o ran ceisio ymdopi â gofynion gwaith a gofal.

Mae gofalwyr di-dâl yn anghymesur o debygol o fod yn fenywod, sy'n golygu bod menywod yn fwy tebygol o fod mewn sefyllfa lle mae eu cyfrifoldebau gofalu yn cael effaith negyddol ar eu hincwm, eu gyrfa a'u pensiwn galwedigaethol. Yn achos gofalwyr ifanc y mae cyfrifoldebau gofalu yn effeithio ar eu haddysg a'u hyfforddiant bydd yr anfantais honno yn para drwy gydol eu bywyd gwaith. Mae gofalwyr ifanc yn sôn am anawsterau i gydbwyso addysg a gwaith rhan amser.

Efallai y bydd gofalwyr di-dâl nad ydynt wedi bod mewn cyflogaeth ers amser maith yn teimlo diffyg hyder ac yn credu nad yw eu sgiliau yn gyfredol mwyach. Roedd rhai yn teimlo nad oedd eu profiad o fod yn ofalwr yn cael ei gydnabod fel profiad gwerthfawr gan gyflogwyr.

Gofal amgen (seibiant) a seibiannau byr oddi wrth gyfrifoldebau gofalu

Cydnabwyd yn gyffredinol fod gofal amgen yn fath allweddol o gymorth, ond eto dywedodd llawer ei fod yn anhygyrch, yn anaddas neu nad oedd ar gael. Ystyriwyd bod hon yn broblem hanfodol ac yn ffactor mawr a oedd yn cyfrannu at ddiffygriad, gofid emosiynol a cholli cyflogaeth.

Mae gofalwyr di-dâl yn gwerthfawrogi'r Cynllun Seibiant Byr a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Gwnaethant hefyd nodi'n glir fod mynediad at ofal amgen, gan gynnwys seibiant dros nos, yn hollbwysig i'w galluogi i fyw bywydau llawn a chytbwys ac ymgymryd â thasgau teuluol a chartref arferol.

Dywedodd gofalwyr wrthym eu bod am weld mwy o ofal amgen (seibiant) ar gael, a gofal amgen sy'n fwy hyblyg ac yn fwy addas at eu hanghenion. Dywedodd rhai gofalwyr nad oedd y ddarpariaeth bob amser yn addas ar gyfer anghenion yr unigolyn roeddent yn gofalu amdano, yn enwedig i bobl sy'n byw gyda dementia neu gyflyrau cymhleth.

Iechyd meddwl a llesiant meddyliol

Mae gofalwyr di-dâl yn disgrifio lefelau uchel o straen emosiynol a gorbryder. Mae llawer o ofalwyr yn teimlo eu bod wedi'u hynysu'n gymdeithasol oherwydd diffyg amser, egni a gofal amgen (seibiant) hygyrch. Dywedodd llawer o ofalwyr wrthym eu bod yn teimlo wedi'u gorlethu, wedi ymlâdd ac yn ddiymgeledd. Soniwyd am y mynediad cyfyngedig at wasanaethau iechyd meddwl sy'n deall eu hanghenion penodol.

Mae gofalwyr am gael mwy o gymorth i'w galluogi i aros mewn cyflogaeth am dâl, ymgymryd â gweithgareddau hamdden a chael seibiant a lleihau eu hynysigrwydd cymdeithasol. Dywedodd rhai gofalwyr wrthym am eu pryderon ynglŷn â'u dyfodol a'r effaith arnynt pan ddaw eu rolau fel gofalwyr i ben. Roeddent yn credu bod angen cymorth penodol am 'fywyd ar ôl gofalu'.

Gofalwyr a chynllunio gofal

Soniodd gofalwyr di-dâl am yr amser a'r rhwystredigaeth sy'n gysylltiedig â defnyddio systemau iechyd a gofal cymdeithasol ar ran y rhai y maent yn gofalu amdanynt. Mae'r amseroedd aros ar gyfer asesiadau gofal cymdeithasol o'r rhai y maent yn gofalu amdanynt yn effeithio ar ofalwyr di-dâl oherwydd, yn aml, ni chânt eu cydnabod fel gofalwyr di-dâl nes bod pobl yn cael diagnosis neu nes bod gwasanaeth yn cael ei ddarparu sy'n lleihau'n rhannol faint o ofal y maent yn ei ddarparu. Mae oedi nes bod gofalwyr yn gallu gwneud cais am Lwfans Gofalwr neu fudd-daliadau eraill yn cael effaith ariannol uniongyrchol.

Mae gofalwyr di-dâl yn pryderu am y lleihad mewn cyfleoedd gofal dydd, gan ddweud bod hyn wedi cynyddu faint o ofal y mae angen iddynt ei ddarparu a'u gallu i gynnal cyflogaeth â thâl. Mae gofalwyr yn awyddus i awdurdodau lleol roi mwy o ystyriaeth i safbwyntiau ac anghenion gofalwyr di-dâl, wrth wneud penderfyniadau a fydd yn cael effaith anuniongyrchol arnynt.

Mae rhai gofalwyr yn dweud nad oeddent wedi cael eu cynnwys yn y broses o ryddhau'r unigolyn y maent yn gofalu amdano o'r ysbyty, yn aml gyda lefel uwch o anghenion gofal. Nid oedd gofalwyr bob amser yn teimlo eu bod yn cael eu cydnabod gan weithwyr proffesiynol ym maes iechyd a chynllunio gofal cymdeithasol.

Gofalwyr di-dâl wedi'u cynnwys mewn strategaethau a chynlluniau eraill gan Lywodraeth Cymru

Mae nifer o strategaethau, polisïau a chynlluniau eraill Llywodraeth Cymru yn ystyried gofalwyr di-dâl ac yn cyfeirio atynt. Mae'r rhain yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol

- [Strategaeth iechyd meddwl a llesiant 2025 i 2035](#)
- [Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024](#)
- [Offeryn hunanasesu a gweithredu NYTH | LLYW.CYMRU](#)
- [Strategaeth atal hunanladdiad a hunan-niweidio: cynllun cyflawni 2025 i 2028](#)
- [Cymru o blaid pobl hŷn: ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio | LLYW.CYMRU](#)
- [Strategaeth ddrafft dementia Cymru 2026 i 2036 | LLYW.CYMRU](#) sy'n destun ymgynghoriad cyhoeddus tan 3 Ebrill
- [Adroddiad Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn \(CCUHP\)](#). Dyma ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Arsylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 2023
- Mae gofalwyr di-dâl yn faes â blaenoriaeth i Lywodraeth Cymru [Fforwm Cydraddoldeb Rhywedd](#)
- Llywodraeth Cymru a GIG Cymru [Canllawiau Rhyddhau o'r Ysbyty: Ionawr 2025](#)

Blaenoriaeth 1: Adnabod a chydabod

Canlyniad 1: Mwy o gydnabyddiaeth i ofalwyr di-dâl a'u cyfraniad gwerthfawr a mwy o ymwybyddiaeth ohonynt ymhlith y cyhoedd.

Camau Gweithredu

- Ymgyrch gyhoeddus i wella cydnabyddiaeth i ofalwyr di-dâl, a gynhelir drwy rwydweithiau lleol, gan gynnwys tynnu sylw at eu hawliau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae gwybodaeth yn hygyrch, yn ddiwylliannol briodol ac ar gael mewn nifer o ieithoedd a fformatau.
- Mae deunydd e-ddysgu/gwybodaeth ychwanegol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o ofalwyr ar gael i grwpiau cymunedol a'r cyhoedd.

Gan bwy - Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid cyflawni trydydd sector, gan gydgynghyrchu â gofalwyr di-dâl.

Sut y byddwn yn asesu effaith

- Mae effaith yn cael ei mesur yn erbyn amcanion ymgyrch y cytunir arnynt.
 - Mae'r partner rhwydwaith lleol yn nodi ymatebion/ymholiadau newydd.
 - Nifer y bobl sy'n cael gafael ar y deunyddiau e-ddysgu/gwybodaeth ychwanegol sydd ar gael.
-

Canlyniad 2: Mae mwy o bobl yn diffinio eu hunain fel gofalwyr di-dâl.

Camau Gweithredu

- Mae negeseuon yr ymgyrch yn annog gofalwyr di-dâl i'w diffinio eu hunain fel y cyfryw.
- Hyrwyddo cynlluniau megis Buddsoddwyr mewn Gofalwyr a Chyfamod y Gofalwyr Ifanc i hyrwyddo ymwybyddiaeth o ofalwyr ac adnabod y rhai sy'n ymgymryd â rôl gofalwr ar gam cynnar.

Gan bwy - Llywodraeth Cymru a phartneriaid cyflawni yn y trydydd sector.

Sut y byddwn yn asesu effaith

- Cynyddu nifer y cysylltiadau newydd gan ofalwyr di-dâl a gofnodir gan awdurdodau lleol.
 - Cynyddu nifer yr ymholiadau newydd i sefydliadau gofalwyr cenedlaethol.
 - Nifer y sefydliadau sydd wedi ymrwmo i Buddsoddwyr mewn Gofalwyr a Cyfamod y Gofalwyr Ifanc.
-

Canlyniad 3: Mae gofalwyr di-dâl yn cael eu hadnabod a'u cefnogi ar y cyfle cyntaf posibl.

Camau Gweithredu

- Ehangu mynediad at e-ddysgu ar ymwybyddiaeth o ofalwyr i amrywiaeth ehangach o weithwyr proffesiynol ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a meysydd eraill (e.e. tai, yr heddlu, y trydydd sector).
- bydd e-ddysgu ar ymwybyddiaeth o ofalwyr i fferyllwyr ar gael ar y llwyfan Dysgu@Cymru.
- Hyrwyddo adnoddau e-ddysgu i staff addysg ar ofalwyr ifanc.
- Mae arweinwyr byrddau iechyd yn sicrhau bod eu staff yn meddu ar yr wybodaeth a'r hyder i adnabod gofalwyr di-dâl a'u cyfeirio at gymorth.
- Mae arweinwyr byrddau iechyd yn sicrhau bod systemau a phrosesau ar waith i gofnodi manylion gofalwr di-dâl pan fydd yr unigolyn y maent yn gofalu amdano yn yr ysbyty.
- Gweithio gyda meddygon teulu i ystyried cyfleoedd i wella ymwybyddiaeth yn eu plith ac adnabod gofalwyr di-dâl.
- Mae staff sy'n ymateb i gysylltiadau cychwynnol ag awdurdodau lleol yn meddu ar yr wybodaeth a'r hyder i roi ymateb rhagweithiol a chyson i ofalwyr di-dâl.

Gan bwyl - Llywodraeth Cymru, Gofalwyr Cymru, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, Byrddau iechyd, Awdurdodau Lleol

Sut y byddwn yn asesu effaith

- Data ar gael ar nifer y staff mewn rolau gwahanol sy'n ymgymryd ag e-ddysgu.
 - Data ar gael ar nifer y staff sy'n ymgymryd ag e-ddysgu.
 - Nifer staff byrddau iechyd sy'n cwblhau e-ddysgu ar Ymwybyddiaeth o Ofalwyr.
 - Nifer y gofalwyr di-dâl sy'n cael eu hadnabod yng Nghofnod Clinigol Nyrsio Cymru.
 - Datblygu deunyddiau cenedlaethol a dull gweithredu y cytunir arno i feddygon teulu
 - Data awdurdodau lleol ar gael ar gysylltiadau a sicrhau ansawdd
-

Blaenoriaeth 2: Mynediad at wasanaethau

Canlyniad 1: Mae gofalwyr di-dâl yn deall eu hawliau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Camau Gweithredu

- Adnewyddu a hyrwyddo Siarter Gofalwyr Llywodraeth Cymru.
- Mae sefydliadau gofalwyr cenedlaethol yn cynnal ymgyrchoedd rheolaidd i helpu gofalwyr i ddeall eu hawliau.
- Mae sefydliadau lleol yn y trydydd sector yn helpu gofalwyr i ddeall eu hawliau.

Gan bwy - Gofalwyr Cymru, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a Fforwm Cymru Gyfan, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ar y cyd â gwasanaethau lleol i ofalwyr a rhwydweithiau eraill.

Sut y byddwn yn asesu effaith

- Cynyddu'r nifer o weithiau yr edrychir ar y dudalen we.
- Nifer yr ymgyrchoedd a arweinir gan sefydliadau gofalwyr cenedlaethol.
- Mae enghreifftiau o weithgarwch gan bartneriaid rhwydwaith Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a gasglwyd yn cael eu darparu gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru.

Canlyniad 2: Mae mwy o ofalwyr yn cael asesiad amserol ac o safon o'u hanghenion. Mae hyn yn gyson ledled Cymru ac mae gofalwyr yn deall beth y dylid ei ddisgwyl.

Camau Gweithredu

- Mae gwybodaeth gyson am broses asesu gofalwyr ar gael i ofalwyr o bob oedran.
- Mae arweinwyr mewn awdurdodau lleol yn sicrhau bod gweithwyr proffesiynol sy'n cynnal asesiadau yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio adnoddau cenedlaethol.
- Mae arweinwyr mewn awdurdodau lleol yn ystyried ffyrdd o hwyluso ailasesu anghenion gofalwyr, lle mae'r rhain wedi newid o bosibl.

Gan bwy- Awdurdodau Lleol, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS Cymru)

Sut y byddwn yn asesu effaith

- Data awdurdodau lleol ar nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr a gynhaliwyd.

- Prosesau sicrhau ansawdd ac adolygu cwynion awdurdodau lleol.
- Ymatebion gofalwyr a arolygwyd ar gyfer adroddiad blynyddol 'Dilyn y Ddeddf' Gofalwyr Cymru.
- Canfyddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru yn ei gwaith arolygu a sicrwydd gydag awdurdodau lleol.

Canlyniad 3: Mae gofalwyr di-dâl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Camau Gweithredu

- Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn sicrhau bod gwasanaethau i ofalwyr a ariennir/a gomisiynir yn cyd-fynd â'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth.
- Mae awdurdodau lleol yn cyhoeddi mwy o Gynlluniau Cymorth Gofalwyr, y gellir eu hadolygu.
- Mae arweinwyr mewn awdurdodau lleol yn sicrhau bod y gweithwyr proffesiynol sy'n cynghori gofalwyr ar y cymorth sydd ar gael yn meddu ar yr wybodaeth a'r hyder i wneud hynny.
- Mae gwybodaeth sy'n gyson yn genedlaethol am Gynlluniau Cymorth a'r mathau o gymorth ar gael i ofalwyr di-dâl.

Gan bwy - Awdurdodau lleol, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS Cymru)

Sut y byddwn yn asesu effaith

- Gall Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddangos tystiolaeth o gysylltiad uniongyrchol rhwng gwasanaethau a gomisiynir ac anghenion gofalwyr di-dâl a gofnodir yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth.
- Data awdurdodau lleol ar gael sy'n dangos cynnydd yn nifer y cynlluniau cymorth gofalwyr.
- Prosesau sicrhau ansawdd ac adolygu cwynion awdurdodau lleol.
- Ymatebion gofalwyr a arolygwyd ar gyfer adroddiad blynyddol 'Dilyn y Ddeddf' Gofalwyr Cymru.
- Canfyddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru yn ei gwaith arolygu a sicrwydd gydag awdurdodau lleol.
- Mae gwybodaeth yn cael ei pharatoi a'i dosbarthu i bob awdurdod.

Blaenoriaeth 3: Gofalwyr ifanc

Canlyniad 1: Mae gofalwyr ifanc yn ymwybodol o'u hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ac o ymrwymiad Llywodraeth Cymru fel un o lofnodwyr Cyfamod y Gofalwyr Ifanc.

Camau Gweithredu

- Negeseuon penodol i ofalwyr ifanc ar y cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth o Gyfamod y Gofalwyr Ifanc.
- Annog sefydliadau i lofnodi Cyfamod y Gofalwyr Ifanc.

Gan bwy - Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Cyngori ar Ofalwyr ifanc, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru

Sut y byddwn yn asesu effaith

- Mae data ar gael ar gyrhaeddiad y cyfryngau cymdeithasol.

Canlyniad 2: Mae gofalwyr ifanc yn helpu i lunio'r gwasanaethau a brofir ganddynt.

Camau Gweithredu

- Mae gwasanaethau statudol yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â gofalwyr ifanc wrth lunio eu polisiau a'u gwasanaethau lleol.
- Mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gofalwyr ifanc yn chwarae rhan weithredol mewn polisiau cenedlaethol sy'n effeithio arnynt.

Gan bwy -Awdurdodau lleol, byrddau iechyd, addysg a Llywodraeth Cymru.

Sut y byddwn yn asesu effaith

- Dangosir tystiolaeth o ymwneud gofalwyr ifanc mewn dogfennau a phrosesau cynllunio.

Canlyniad 3: Mae awdurdodau lleol yn cael sicrwydd nad yw gofalwyr ifanc, y maent yn ymwybodol ohonynt, yn rhoi lefelau o ofal sy'n niweidiol i'w llesiant, eu datblygiad a'u haddysg.

Camau Gweithredu

- Mae arweinwyr mewn awdurdodau lleol yn sicrhau bod asesiadau o ofalwyr ifanc yn cael eu cynnal fel y bo'n briodol a bod systemau ar waith i hwyluso ailasesu gofalwyr ifanc, lle mae eu sefyllfa o ran gofalu wedi newid o bosibl.

- Mae arweinwyr mewn awdurdodau lleol yn sicrhau bod gofalwyr ifanc yn cael y cymorth y nodwyd ei fod yn angenrheidiol ac a amlinellwyd mewn Cynllun Cymorth Gofalwr, sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd.
- Mae arweinwyr mewn awdurdodau lleol yn sicrhau bod gwasanaethau gofal a chymorth priodol ar waith, fel na fydd gofalwyr ifanc yn cael eu gadael i ysgwyddo cyfrifoldebau amhriodol.
- Mae arweinwyr mewn awdurdodau lleol yn sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth ddigonol gan wasanaethau a gomisiynwyd i gyflawni eu dyletswyddau statudol tuag at ofalwyr ifanc.

Gan bwy - Awdurdodau lleol

Sut y byddwn yn asesu effaith

- Data awdurdodau lleol ar nifer yr asesiadau o anghenion gofalwyr ifanc a gynhelir a nifer y Cynlluniau Cymorth Gofalwr i ofalwyr ifanc.
 - Prosesau sicrhau ansawdd ac adolygu cwynion awdurdodau lleol.
 - Canfyddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru yn ei gwaith arolygu a sicrwydd gydag awdurdodau lleol.
 - Data'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion ar lesiant a chyflawniad addysgol gofalwyr ifanc, neu nodi dulliau amgen o gasglu data.
-

Canlyniad 4: Mae gofalwyr ifanc yn cael eu cydnabod a'u cefnogi yn y system addysg.

Camau Gweithredu

- Mae arweinwyr mewn ysgolion a cholegau addysg bellach yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol i ofalwyr ifanc ac yn rhoi polisiau a gweithdrefnau ar waith i annog dysgwyr â chyfrifoldebau gofalu i ddiffinio eu hunain fel gofalwyr.
- Mae arweinwyr ym maes addysg yn annog staff addysg i fanteisio ar yr adnoddau sydd ar gael ynglŷn â gofalwyr ifanc.
- Mae arweinwyr mewn ysgolion a cholegau yn sicrhau bod staff yn hyderus o ran sut i godi pryderon ynglŷn â gofalwyr ifanc.
- Mae gwybodaeth sy'n gyson yn genedlaethol am ofalwyr ifanc ar gael i staff addysg.
- Sicrhau bod enghraifft o bolisi ysgol i ofalwyr ifanc sy'n cynnwys arferion gorau cenedlaethol ar gael.

Gan bwy- Awdurdodau addysg lleol a lleoliadau addysgol unigol, Llywodraeth Cymru ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru

Sut y byddwn yn asesu effaith

- Mae dull samplu y cytunwyd arno wedi cael ei nodi
 - Cais am adborth gan sampl o ysgolion.
-

Canlyniad 5: Mae gwell gwybodaeth ar gael am lesiant a chyflawniad addysgol gofalwyr ifanc.

Camau Gweithredu

- Nodi ffyrdd o gymharu llesiant a chynnydd addysgol gofalwyr ifanc â'u cyddysgwyr.

Gan bwy- Llywodraeth Cymru

Sut y byddwn yn asesu effaith

- Nodi system o gasglu data a'i hymgorffori.
-

Canlyniad 6: Mae Cardiau Adnabod i Ofalwyr Ifanc ar gael i ofalwyr ifanc ac maent yn cael eu cydnabod ym maes addysg ac mewn fferyllfeydd cymunedol.

Camau Gweithredu

- Mae awdurdodau lleol yn parhau i hyrwyddo a chyflwyno cynlluniau Cardiau Adnabod i Ofalwyr Ifanc.
- Mae awdurdodau lleol yn ymgysylltu â'u hysgolion i hyrwyddo Cardiau Adnabod i Ofalwyr Ifanc.
- Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i annog fferyllwyr i gydnabod Cardiau Adnabod i Ofalwyr Ifanc drwy'r deunydd e-ddysgu sydd ar gael.

Gan bwy - Awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru

Sut y byddwn yn asesu effaith

- Cais blynyddol gan Lywodraeth Cymru am ddata ar nifer y gofalwyr ifanc sydd â Cherdyn Adnabod ym mhob awdurdod lleol
 - Mae data ar gael ar nifer y rhai sy'n ymgymryd ag e-ddysgu ar ymwybyddiaeth o ofalwyr.
-

Canlyniad 7: Gall gofalwyr ifanc gael gafael ar gymorth iechyd meddwl a llesiant priodol a digonol.

Camau Gweithredu

- Gall gofalwyr ifanc gael gafael ar gymorth iechyd meddwl a llesiant a ddarperir yn unol â **Fframwaith NYTH**
- Mae'r data cyfredol ar iechyd a llesiant gofalwyr ifanc yn cael eu deall gan ymarferwyr iechyd ac addysg i lywio dulliau gweithredu.

Gan bwy - Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'u partneriaid, Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru

Sut y byddwn yn asesu effaith

- Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn rhoi adroddiadau ar y cymorth iechyd meddwl a llesiant sydd ar gael i ofalwyr ifanc drwy eu hunanasesiad o dan fframwaith NYTH.
- Mae data tystiolaeth wedi cael eu rhannu ag arweinwyr iechyd a llesiant ym maes addysg, rhwydwaith y nyrsys ysgol a sianeli cyfathrebu eraill.

Canlyniad 8: Mwy o gydnabyddiaeth ac ymgysylltu â gofalwyr ifanc ymhlith gweithwyr iechyd proffesiynol a gweithwyr proffesiynol eraill (e.e. tai, yr heddlu, y trydydd sector)

Camau Gweithredu

- Lle y bo'n briodol, dylai staff gynnwys gofalwyr ifanc mewn trafodaethau a chynlluniau ar gyfer yr unigolyn y maent yn gofalu amdano.
- Bydd fferyllyfeydd yn sicrhau bod darpariaeth i helpu gofalwyr ifanc i gasglu meddyginiaethau ar bresgripsiwn ar ran pobl y maent yn gofalu amdanynt, lle ystyrir bod hyn yn ddiogel.

Gan bwy - Byrddau iechyd ac asiantaethau eraill yn y sector cyhoeddus.

Sut y byddwn yn asesu effaith

- Adborth gofalwyr ifanc sy'n cael ei gasglu gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru/y Bwrdd Cyngori ar Ofalwyr Ifanc.

Canlyniad 9: Mae gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc yn cael cyfleoedd tebyg i gael addysg bellach ac addysg, cyflogaeth a hyfforddiant â'u cyfoedion.

Camau Gweithredu

Ehangu mynediad at adnoddau gwybodaeth ar ofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc i hyrwyddo dealltwriaeth i

- staff mewn lleoliadau addysg bellach ac uwch.
- Gyrfa Cymru a staff mewn rolau perthnasol eraill
- darparwyr hyfforddiant

Gan bwy - Llywodraeth Cymru ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru.

Sut y byddwn yn asesu effaith

- Mae angen ymchwil i ddata cyrchfannau'r rhai sy'n gadael yr ysgol.

Canlyniad 10: Gall gofalwyr ifanc gael gafael ar y cymorth ariannol sydd ar gael.

Camau Gweithredu

- Mae ysgolion/ colegau yn ymwybodol bod y Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn gymwys i ofalwyr ifanc.
- Mae gofalwyr ifanc yn gwneud cais i'r Gronfa Gymorth i Ofalwyr ac maent yn cael gwybodaeth ariannol ychwanegol.

Gan bwy - Llywodraeth Cymru, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru

Sut y byddwn yn asesu effaith

- Adborth gofalwyr ifanc sy'n hawlio'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg.
- Nifer y gofalwyr ifanc sy'n gwneud cais i'r Gronfa Gymorth i Ofalwyr.

Canlyniad 11: Mae gofalwyr ifanc yn gwneud cais am ofal amgen (seibiant) a seibiannau byr pan fo angen hynny.

Camau Gweithredu

- Mae awdurdodau lleol yn sicrhau nad yw gofalwyr ifanc yn rhoi lefelau amhriodol o ofal ac yn rhoi gofal amgen (seibiant) lle bo angen.
- Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn hyrwyddo Cynllun Seibiant Byr Llywodraeth Cymru ymhlith gofalwyr ifanc.

Gan bwy - Awdurdodau Lleol, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Sut y byddwn yn asesu effaith

- Prosesau sicrhau ansawdd awdurdodau lleol
- Canfyddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru yn ei gwaith arolygu a sicrwydd gydag awdurdodau lleol.
- Nifer y bobl ifanc sy'n defnyddio'r Cynllun Seibiant Byr.

Blaenoriaeth 4: Caledi ariannol

Canlyniad 1: Mae gofalwyr di-dâl yn ymwybodol o fudd-daliadau ac yn gallu cael cymaint o incwm â phosibl.

Camau Gweithredu

- Mae gofalwyr di-dâl yn grŵp sy'n cael ei adnabod o fewn ymgyrchoedd gwybodaeth a gwasanaethau cyffredinol ynglŷn â sicrhau cymaint o incwm a budd-daliadau â phosibl.
- Mae gweithwyr proffesiynol yn y sector cyhoeddus yn cyfeirio gofalwyr di-dâl at wasanaethau sy'n cynghori ar sicrhau cymaint o fudd-daliadau ac incwm â phosibl.
- Mae gwasanaethau gofalwyr yn rhoi gwybodaeth, neu'n cyfeirio gofalwyr di-dâl at wasanaethau sy'n sicrhau cymaint o fudd-daliadau ac incwm â phosibl.
- Mae'r Gronfa Gymorth i Ofalwyr yn parhau i roi cyngor ar sicrhau cymaint o fudd-daliadau ac incwm â phosibl yn ychwanegol at grantiau ariannol.

Gan bwy- Llywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd, Awdurdodau Lleol ac asiantaethau eraill yn y sector cyhoeddus, Gofalwyr Cymru, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, gwasanaethau lleol i ofalwyr

Sut y byddwn yn asesu effaith

- Adroddiad ar dlodi ymhlith gofalwyr ifanc o adroddiad 'State of Caring' Gofalwyr Cymru
- Nid oes unrhyw ddata penodol ar gael ar hyn o bryd. I'w ystyried fel rhan o gofnodi gwell ar gymorth cynnar i ofalwyr.
- Darperir data sydd ar gael ar gymorth.
- Cyrraedd targedau cyflawni ar gyfer y Gronfa Gymorth i Ofalwyr ac adborth ar werth y cyngor fel rhan o adroddiadau monitro.

Blaenoriaeth 5: Cyflogaeth am dâl

Canlyniad 1: Mae gofalwyr di-dâl yn teimlo eu bod yn gallu aros mewn cyflogaeth â thâl, neu ddychwelyd at gyflogaeth â thâl, gyda sicrwydd o ran cymorth i'r unigolyn y maent yn gofalu amdano.

Camau Gweithredu

- Mae asesiadau o anghenion gofalwyr yn ymdrin ag anghenion a dymuniadau'r gofalwr o ran cyflogaeth â thâl.
- Mae'r cynllun gofal a chymorth yn nodi'r gwasanaethau gofal sydd eu hangen pan fydd y gofalwr di-dâl yn y gwaith. Darperir y gwasanaethau hyn

Gan bwy- Awdurdodau lleol

Sut y byddwn yn asesu effaith

- Mae data ar gael o arolygon megis Adroddiad State of Caring Gofalwyr Cymru.
- Archwiliadau sicrhau ansawdd awdurdodau lleol o asesiadau o anghenion gofalwyr a chynlluniau gofal a chymorth.
- Gweithgarwch arolygu a sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru.

Canlyniad 2: Mae sefydliadau cymorth cyflogaeth yn ystyriol o ofalwyr ac yn manteisio ar gyfleoedd i hyrwyddo cyflogaeth gofalwyr di-dâl.

Camau Gweithredu

- Mae staff mewn rolau cymorth cyflogaeth perthnasol yn cael gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth o ofalwyr di-dâl; eu sgiliau a'u hawliau cyflogaeth.
- Mae gofalwyr yn cael eu hadnabod fel grŵp penodol mewn rhaglenni sydd â'r nod o hyrwyddo dychwelyd i gyflogaeth.

Gan bwy - Llywodraeth Cymru a phartneriaid yn y trydydd sector

Sut y byddwn yn asesu effaith

- Arolygon megis Adroddiad State of Caring Gofalwyr Cymru.
 - Mae data ar gael gan gynlluniau cymorth cyflogaeth
-

Canlyniad 3: Mae cyflogwyr yn gadarnhaol ynglŷn â chyflogi gofalwyr ac yn cael eu hysbysu am hawliau cyflogaeth.

Camau Gweithredu

- Hyrwyddo gwybodaeth ynglŷn â hawliau cyflogaeth gofalwyr ymhlith cyflogwyr ac undebau llafur.
- Ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o hyrwyddo gweithleoedd 'sy'n ystyiol o ofalwyr' drwy gynlluniau neu raglenni rhanbarthol neu genedlaethol.

Gan bwyl - Llywodraeth Cymru, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a phartneriaid yn y trydydd sector

Sut y byddwn yn asesu effaith

- Adborth gan sefydliadau cyflogwyr ac undebau llafur.
- Cynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni rhanbarthol neu genedlaethol.

Blaenoriaeth 6: Gofal amgen (seibiant) a seibiannau byr oddi wrth gyfrifoldebau gofalu

Canlyniad 1: Gall gofalwyr di-dâl gael seibiannau oddi wrth dasgau gofalu beunyddiol sy'n diwallu eu hanghenion ac anghenion yr unigolyn y maent yn gofalu amdano.

Camau Gweithredu

- Adolygu gofal amgen (seibiant) ar lefel awdurdod lleol a rhanbarthol.
- Datblygu gofal amgen (seibiant) ychwanegol i ddiwallu'r angen am seibiannau byrrach a darpariaeth dros nos/gwyliau.
- Mae gwybodaeth sy'n gyson yn genedlaethol am daliadau uniongyrchol a gofal amgen (seibiant) ar gael i ofalwyr di-dâl.
- Parhau â'r ymrwymiad i'r Cynllun Seibiant Byr cenedlaethol hyd at 2029.

Gan bwyl - Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS Cymru)

Sut y byddwn yn asesu effaith

- Mae data awdurdodau lleol ar gael ar nifer y gofalwyr sy'n manteisio ar ofal amgen (seibiant).
- Tystiolaeth gan awdurdodau lleol neu Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol bod amrywiaeth ehangach o gyfleoedd darpariaeth gofal amgen (seibiant) a mwy o ddarpariaeth gofal amgen (seibiant) ar gael.

- Mae gwybodaeth yn cael ei pharatoi a'i dosbarthu i bob awdurdod.
- Cyrraedd targedau cyflawni a system o roi adborth ar effaith.

Blaenoriaeth 7: Iechyd meddwl a llesiant meddyliol

Canlyniad 1 - Gall gofalwyr di-dâl reoli eu hiechyd meddwl a'u llesiant meddyliol.

Camau Gweithredu

- Mae byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol yn darparu ystod o wasanaethau sy'n gallu helpu gofalwyr di-dâl i reoli eu hiechyd meddwl a'u llesiant meddyliol.
- Mae sefydliad cenedlaethol i ofalwyr yn darparu cymorth llesiant.
- Mae cyfleoedd i wasanaethau llesiant meddyliol cyffredinol fod yn fwy 'ystyriol o ofalwyr' yn cael eu nodi.

Gan bwy- Byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a phartner yn y trydydd sector

Sut y byddwn yn asesu effaith

- Data Arolwg Cenedlaethol Cymru a Dilyn y Ddeddf Gofalwyr Cymru.
- Arolygon o ofalwyr di-dâl megis Dilyn y Ddeddf Gofalwyr Cymru.

Canlyniad 2- Mae mwy o ofalwyr di-dâl sydd mewn perygl o ladd eu hunain yn cael eu hadnabod a'u cefnogi.

Camau Gweithredu

- Mae gofalwyr di-dâl yn cael eu cydnabod yn Strategaeth Atal Hunanladdiad Llywodraeth Cymru a'i chynlluniau cyflawni.
- Mae'r risg o hunanladdiad ac atal hunanladdiad yn cael eu cynnwys mewn e-ddysgu i weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol ar ofalwyr di-dâl.
- Mae e-ddysgu i bartneriaid yn y trydydd sector ar y risg o hunanladdiad ac atal hunanladdiad yn cael ei roi i asiantaethau yn y trydydd sector sy'n gweithio gyda gofalwyr di-dâl.
- Mae gweithwyr proffesiynol sy'n cynnal asesiadau o anghenion gofalwyr yn ystyried y risg o hunanladdiad.

Gan bwy - Llywodraeth Cymru a phartner yn y trydydd sector. Awdurdodau lleol

Sut y byddwn yn asesu effaith

- Parhau i adnabod gofalwyr di-dâl wrth gynllunio'n strategol.
- Datblygu cynnwys a'i ddosbarthu a'i hyrwyddo'n effeithiol

- Archwiliadau sicrhau ansawdd awdurdodau lleol.

Canlyniad 3- Mae gofawyr di-dâl yn gallu cael gafael ar gymorth wrth iddynt bontio i ‘fywyd ar ôl gofalu’

Camau Gweithredu

- Adolygu'r adnoddau sydd ar gael a datblygu deunyddiau ychwanegol lle mae eu hangen a'u lledaenu.

Gan bwy - Llywodraeth Cymru a Gofawyr Cymru

Sut y byddwn yn asesu effaith

- Tystiolaeth bod adnoddau yn cael eu datblygu, lle mae eu hangen. Mae dull o werthuso effaith yn cael ei ddatblygu.

Blaenoriaeth 8: Gofawyr mewn prosesau cynllunio gofal

Canlyniad 1 - Mae gofawyr di-dâl yn cael eu cydnabod fel partner wrth asesu a chynllunio gofal i'r bobl y maent yn gofalu amdanynt.

Camau Gweithredu

- Mae gweithwyr proffesiynol yn cynnwys gofawyr di-dâl wrth asesu, cynllunio ac adolygu gofal.
- Cydnabyddiaeth y gallai'r gofawr di-dâl fod yn ofalwr ifanc.

Gan bwy- Awdurdodau lleol

Sut y byddwn yn asesu effaith

- Archwiliadau sicrhau ansawdd awdurdodau lleol o asesiadau a chynlluniau gofal a chwynion.
- Gweithgarwch arolygu a sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru.

Canlyniad 2 - Mae gofawyr di-dâl yn cael eu cydnabod fel partner wrth gynllunio gofal a thriniaeth i'r bobl y maent yn gofalu amdanynt.

Camau Gweithredu

- Mae gweithwyr proffesiynol yn cynnwys gofawyr di-dâl wrth gynllunio ac adolygu gofal a thriniaeth gyda chydsyniad cleifion.
- Mae byrddau iechyd yn sicrhau bod gan staff ddealltwriaeth glir a chyson o gyfrinachedd a chydsyniad o ran gofawyr di-dâl.

Gan bwy- Byrddau iechyd

Sut y byddwn yn asesu effaith

- Gall byrddau iechyd ddangos tystiolaeth bod archwiliadau o ansawdd cynlluniau gofal a thriniaeth yn cael eu cynnal.
- Arolygiadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

Canlyniad 3 - Mae gofalwyr di-dâl yn cael eu cynnwys yn rhagweithiol yn y cynllun rhyddhau o'r ysbyty i'r unigolyn y maent yn gofalu amdano ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi.

Camau Gweithredu

- Mae gweithwyr proffesiynol yn cynnwys gofalwyr di-dâl yn rhagweithiol wrth gynllunio ar gyfer rhyddhau claf o'r ysbyty, yn unol â Chanllawiau Rhyddhau Cleifion Llywodraeth Cymru.
- Mae arweinwyr byrddau iechyd yn sicrhau bod gwybodaeth a chymorth ar gael i ofalwyr di-dâl ar adeg rhyddhau, gan sicrhau bod cyllid Llywodraeth Cymru mor effeithiol â phosibl.
- Mae arweinwyr byrddau iechyd yn sicrhau eu bod wedi rhoi polisïau a gweithdrefnau cyson a chadarn ar waith i gofnodi pwy sy'n ofalwyr di-dâl, a bod staff ar y cyd yn deall cyfrinachedd cleifion

Gan bwy - Byrddau iechyd

Sut y byddwn yn asesu effaith

- Archwiliadau sicrhau ansawdd byrddau iechyd o gynlluniau rhyddhau a chwynion.
- Gweithgarwch arolygu a sicrwydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.
- Adborth gan ofalwyr di-dâl am eu profiad o gael eu cynnwys mewn prosesau cynllunio ar gyfer rhyddhau claf o'r ysbyty.
- Cyflwyno gwybodaeth i Lywodraeth Cymru am y defnydd o gyllid wedi'i glustnodi drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.
- Gweithredu cyson o fewn a rhwng byrddau iechyd.

Canlyniad 4 - Mae gofalwyr di-dâl yn cael eu hystyried, pan fo hynny'n briodol, wrth i benderfyniadau am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gael eu gwneud.

Camau Gweithredu

- Mae partneriaid statudol yn ystyried safbwyntiau gofalwyr di-dâl wrth wneud penderfyniadau ar wasanaethau a pholisïau mewn perthynas â chleifion a phobl sy'n cael gofal a chymorth.

Gan bwy - Byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol

Sut y byddwn yn asesu effaith

- Gwybodaeth a roddir gan ofalwyr di-dâl i Llais ac ymwneud â chwynion perthnasol.
- Mae asesiadau effaith yn cael eu cynnal.

Atodiad 1 -Ymgysylltu er mwyn llywio'r strategaeth ddrafft

Yn ystod haf 2025, gwnaethom siarad ag amrywiaeth eang o ofalwyr di-dâl a sefydliadau perthnasol. Y nod oedd llywio blaenoriaethau'r strategaeth a'r camau gweithredu sydd fwyaf tebygol o sicrhau newid cadarnhaol.

Rydym yn ddiolchgar iawn i bob un o'r gweithwyr proffesiynol hynny a gyfarfu â ni ac a ddarparodd wybodaeth ysgrifenedig. Rydym yn hynod ddiolchgar i bob un o'r gofalwyr di-dâl a oedd yn gallu neilltuo'r amser i siarad â ni.

Gwnaethom siarad â'r canlynol:

- Grŵp o ofalwyr a drefnwyd gan Gofalwyr Cymru (Y Fenni)
- Grŵp o ofalwyr o Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
- Grŵp o ofalwyr o Wasanaeth Cynnal Gofalwyr Bangor
- Grŵp o ofalwyr o Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru
- Grŵp o ofalwyr o Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gorllewin Cymru
- Grŵp o ofalwyr o Credu (Y Trallwng)
- Grŵp o ofalwyr o Mencap Ynys Môn
- Grŵp o ofalwyr o Ganolfan Gofalwyr Abertawe
- Grŵp o gynrychiolwyr gofalwyr di-dâl ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol
- Grŵp o ofalwyr sy'n gweithio
- Grŵp o ofalwyr ifanc yn yr Eisteddfod
- Grŵp o ofalwyr ifanc yng Ngŵyl Gofalwyr Ifanc Cymru

Gwnaethom hefyd gyfarfod â'r sefydliadau canlynol a/neu dderbyn cyfraniadau ysgrifenedig oddi wrthynt:

- Adferiad
- Age Cymru
- Fforwm Cymru Gyfan
- Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
- Cymdeithas Alzheimer's
- Cymdeithas Fyddar Prydain
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Rhwydwaith Gwella a Dysgu Swyddogion Gofalwyr (COLIN)

- Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru
- Gofalwyr Cymru
- Y Comisiynydd Plant
- Cymdeithas y Tsieineaid yng Nghymru
- Credu
- Dementia Carers Count
- Cymdeithas Syndrom Down
- Sipsiwn a Theithwyr Cymru
- Cynrychiolwyr byrddau iechyd
- Anabledd Dysgu Cymru
- Llais
- Cynrychiolwyr awdurdodau lleol
- Mencap
- Mind Cymru
- MS Cymru
- Y Comisiynydd Pobl Hŷn
- Cymdeithas Parkinson's
- Race Equality First
- SNAP Cymru
- Stonewall
- Travelling Ahead
- Unsain a TUC Cymru
- Women Connect First
- Bwrdd Cyngori ar Ofalwyr Ifanc
- Rhwydwaith Proffesiynol Gofalwyr Ifanc